# Tydfil House

Gwasanaeth 'cam i lawr' arbenigol ar gyfer adsefydlu ac adfer


Tydfil House, 46 Heol Merthyr, Y Fenni, NP7 5BY

**Ffôn: 01873 777 199**

**E-bost:** tydfil.house@elysiumhealthcare.co.uk




## Trosolwg

Mae Tydfil House yn swatio yn nhref farchnad braf y Fenni, ac mae'n cynnig gwasanaeth preswyl cynnes a chefnogol mewn amgylchedd tawel i oedolion sy'n symud o ofal mewn ysbyty.

Gyda phedair ystafell wely en suite hyfryd, rydym yn darparu lleoliad tawel a chartrefol lle gall unigolion fagu hyder o'r newydd, adennill annibyniaeth, a chanolbwyntio ar nodau adfer personol a gynhyrchir ar y cyd.

Rydym yn cynnig dull personol iawn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth, ymreolaeth a sefydlogrwydd tymor hir, gan ein gwneud yn bartner dibynadwy ym maes adferiad â chymorth. Rydym yn gweithio gyda phreswylwyr, nid drostyn nhw, gan eu grymuso i lywio eu taith adfer eu hunain.

**D idwylledd**

**G onestrwydd**

**A gwedd agored**

**A nnibyniaeth**

**C ydweithrediad**

**G rymuster**

**C efnogaeth**



## Pwy rydym yn eu cefnogi

Rydym yn croesawu atgyfeiriadau ar gyfer dynion a menywod 18 oed a hŷn a allai fod â'r canlynol:

- Diagnosis sylfaenol o salwch meddwl
- Cyflyrau iechyd corfforol hirdymor neu niwrolegol sy'n cydfodoli
- Diagnosis deuol gan gynnwys anableddau dysgu ysgafn
- Trefniant anffurfiol neu wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2007)
- Gofyniad am gymorth strwythuredig parhaus mewn amgylchedd llai cyfyngol



## Yr hyn rydym yn ei gynnig

Mae pob preswylydd yn Tydfil House yn cael cynllun adsefydlu wedi'i deilwra ar sail eu hanghenion, eu nodau a'u dyheadau unigol. Rydym yn cefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau bywyd a magu hyder ac yn darparu mynediad at gyfleoedd dysgu a gwirfoddoli. Rydym yn defnyddio dull gweithredu cydweithredol drwy weithio gyda thimau cymunedol, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod pob cam tuag at annibyniaeth yn cael ei gefnogi'n dda.

Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar rymuso personol, cynhwysiant cymunedol, a'r gallu i ffynnu mewn bywyd bob dydd – hyn oll mewn amgylchedd diogel, tawel a strwythuredig.

## Ein Tîm

Ceir mewnbwn parhaus gan ein tîm yn Tydfil House, ar y cyd â'r Tîm Amlddisgyblaethol yn Tŷ Gwyn Hall, sy'n cynnwys:

- Clinigydd Cyfrifol pwrpasol
- Meddyg Arbenigol
- Nyrs Iechyd Corfforol
- Seicolegydd
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Therapyddion Galwedigaethol
- Asesydd y Ddeddf Iechyd Meddwl

Gan sicrhau parhad gofal a throsglwyddo'n ddidrafferth o'r ysbyty i fyw yn y gymuned.

## Cyfleusterau a'r amgylchedd

Mae Tydfil House yn lleoliad preswyl cyfforddus a therapiwtig, sydd wedi'i gynllunio i hybu adferiad, annibyniaeth a llesiant. Yn y tŷ mae pedair ystafell wely wedi'u dodrefnu'n llawn gyda chyfleusterau en suite, ac mae un ohonynt ar y llawr gwaelod, sy'n ei gwneud yn hygyrch i unigolion sydd ag anghenion iechyd corfforol.

Mae ardaloedd cymunedol, gan gynnwys lolfa a chegin a rennir, ar gael i'r holl breswylwyr ac maent yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau bywyd bob dydd. Mae pob preswylydd yn cael ei annog i roi ei stamp ei hun ar y gofod o'i gwmpas a chymryd perchnogaeth dros ei arferion, gan feithrin ymdeimlad o ymreolaeth a pherthyn.

Mae Tydfil House yn nhref hyfryd y Fenni ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n ffodus o fod mewn lleoliad heddychlon lle mae mynediad hawdd at amwynderau lleol, cyfleoedd hamdden, a chysylltiadau trafnidiaeth cryf i Gaerdydd, Casnewydd a Henffordd.

## Gwybodaeth atgyfeirio

Mae Tydfil House yn rhan o lwybr ehangach Elysium Healthcare. Rydym yn gweithio'n agos gyda chomisiynwyr y GIG, awdurdodau lleol a theuluoedd i bontio'n llyfn o leoliadau mwy cyfyngol gyda chefnogaeth dda.



## Sut mae atgyfeirio:


Llinell atgyfeirio 24 awr
**0800 218 2398**

Anfonwch e-bost at:
**referrals@elysiumhealthcare.co.uk**


Elysium Healthcare

Kindness Integrity Teamwork Excellence

**elysiumhealthcare.co.uk**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael ar gais mewn ieithoedd gwahanol, Braille, fformat Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain**

Rhan o Ramsay Health Care


1712/0525